Bwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Dydd Iau, 13 Hydref 2016
Ystafell Fwrdd, Campws Dinas Casnewydd, Prifysgol De Cymru

Yn bresennol:

Aelodau (Coleg): Dr Hefin Jones (Cadeirydd a Deon), Yr Athro Siwan Davies, Dr Dylan Foster Evans, Yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones, Yr Athro Emeritws Densil Morgan, Gwerfyl Roberts, Llŷr Roberts, Yr Athro Emeritws Deri Tomos

Aelodau (Sefydliad): Dr Myfanwy Davies, Dr Tudur Davies, Dr Gwenno Ffrancon, Yr Athro Mererid Hopwood, Dr Gwawr Jones, Daniel Tiplady, Sara Whittam

Aelodau (Myfyrwyr): Laura Beth Davies, Ifan James, Lois Pennant Jones, Gethin Morgan, Osian Wyn Morgan, Osian Wyn Owen, Alun Bryn Rennolf

Aelodau (Colegau Cymru): Llinos Roberts

Swyddogion: Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr), Dr Dylan Phillips (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Gwennan Schiavone (Uwch Reolwr Academaidd), Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd), Nia Brown (Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth)

Ymddiheuriadau: Yr Athro Carwyn Jones, Dr Lisa Lewis, Huw Morris, Delyth Murphy, Yr Athro Eleri Pryse, Dr Elin Royles, Carys Swain, Yr Athro Enlli Thomas, Dr Catrin Haf Williams, Linda Wyn

Eitem	**Prif bwyntiau trafod**	**Pwyntiau Gweithredu**	**Cyfnod amser**
1. Croeso a Sylwadau Agoriadol	1.1. Croesawyd yr aelodau'n ffurfiol i'r cyfarfod gan y Deon gan gynnwys Dr Tudur Davies ar ran Dr Elin Royles a Dr Gwawr Jones ar ran Dr Lisa Lewis. 1.2. Croesawyd cynrychiolwyr myfyrwyr 2016/17 i'w cyfarfod cyntaf. 1.3. Diolchwyd i Brifysgol De Cymru am y croeso ac am letya'r cyfarfod.		
2. Ymddiheuriadau a datganiadau o ddiddordeb	2.1. Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. 2.2. Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb i'w nodi:		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
3. Diweddariad gan y Prif Weithredwr	3.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar faterion yn ymwneud â'r Coleg. 3.2. Adroddodd y Prif Weithredwr bod Dr Hefin Jones wedi ei enwebu gan aelodau'r Coleg i wasanaethu fel Deon y Coleg a Chadeirydd y Bwrdd Academaidd am dymor pellach. Bydd y Pwyllgor Penodiadau yn ystyried yr argymhelliad ar 14 Hydref 2016. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth hyd yma. 3.3. Adroddwyd bod Adolygiad Diamond wedi argymell bod y Coleg yn parhau i fod yn brif gorff cynllunio a chefnogi darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac y dylai parhau i dderbyn cyllideb flynyddol yn cyfateb o leiaf i ffigyrau 2016/17, sef £5.8m. 3.4. Adroddwyd bod cyfarfod adeiladol a phositif wedi ei gynnal ar 5 Hydref 2016 gydag Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, a Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes. 3.5. Yn sgil cyhoeddiad gan yr Prif Weinidog yn ystod yr Eisteddfod bydd Grŵp Tasg a Gorffen yn cael ei sefydlu i adolygu cyfrifoldebau'r Coleg. Disgwylir gwybodaeth bellach yn fuan. 3.6. Adroddwyd bod cyfarfodydd cynllunio wedi eu trefnu rhwng y Coleg a sefydliadau unigol. Prif bwrpas y cyfarfodydd fydd trafod sefyllfaoedd lle daw grantiau presennol y Coleg i ben ym mis Gorffennaf 2017. 3.7. Adroddwyd y bydd tymor Andrew Green fel Cadeirydd y Coleg yn dod i ben ar 31 Mawrth 2017. Hysbysebir y swydd yn fuan. 3.8. Adroddwyd y bydd ystyriaeth bellach yn cael ei roi yn ystod y flwyddyn o strwythur a chyfrifoldebau Canghennau'r Coleg. Bydd hyn yng nghyd destun llunio cytundebau cyllido newydd gyda'r sefydliadau i'w gweithredu o fis Awst 2017.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
4. Cyflwyniad gan Brifysgol De Cymru	4.1. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Gwawr Jones, Pennaeth yr Uned Gymraeg a Swyddog Iaith y Brifysgol, a Llŷr Roberts, Pennaeth Canolfan ABC, ar gynnydd y ddarpariaeth Gymraeg ym Mhrifysgol De Cymru yn y cyfnod diweddar. 4.2. Diolchwyd iddynt am y cyflwyniad oedd yn arddangos yr heriau a'r gwaith arloesol yn y sefydliad.		
5. Cynllunio Academaidd (i)	5.1. Cynhaliwyd ymarferiad cynllunio academaidd fesul pwnc dan arweiniad y Cofrestrydd.		
6. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Gorffennaf 2016	6.1. Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.		
7. Cynllunio Academaidd (ii) (Eitem 5)	7.1. Rhoddwyd cyflwyniad ar y cynllun academaidd newydd gan y Cofrestrydd. 7.2. Adroddwyd ar ddatblygiad y cynllun ers y trafodaethau cychwynnol ym Mwrdd Academaidd Hydref 2015, yr ymgynghoriad â'r sefydliadau a'r canghennau, a thrafodaethau pellach yn y Bwrdd Academaidd, Grŵp Ymgynghorol a'r Bwrdd Cyfarwyddwyr. 7.3. Cyfeiriwyd at y cyd-destun polisi: Adolygiad y Coleg; Adroddiad Diamond; Adolygiad Hazelkorn; Strategaeth Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050; safonau iaith Gymraeg y Gwasanaeth Iechyd a chynllun Mwy na Geiriau'r Llywodraeth; a TEF/Papur Gwyn Lloegr. 7.4. Yn sgil y cyd-destun polisi datblygwyd y cynllun ar gyfer addysg uwch ond gydag egwyddorion y gellid eu gosod ar waith yn ehangach. 7.5. Yn ystod y drafodaeth gwyntyllwyd sut y dylid sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r darlithwyr nad sydd yn cael eu noddi gan y Coleg ond sydd yn cyfrannu'n bwrpasol at	Trafod yn y cyfarfodydd cynllunio	Erbyn 8 Chwefror 2017

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sefydliadau. Cytuwnyd bod hyn yn fater i'w drafod yn y cyfarfodydd cynllunio yng ngyd destun modelau cylldio newydd a fydd yn disodli'r Cynllun Staffio ymhen amser.		
8. Papur cynrychiolaeth myfyrwyr (Eitem 6)	8.1. Cyflwynwyd papur cynrychiolaeth myfyrwyr ar y Bwrdd Academaidd gan Ifan James, Swyddog Iaith Gymraeg UCMC, ar ran Fflur Elin, Llywydd UCMC. 8.2. Derbyniwyd Rhan A i'r broses ethol sef mabwysiadu'r arfer na fydd mwy na un myfyriwr o bob prifysgol. 8.3. Croesawyd Rhan B o'r papur sy'n gosod canllaw arfer da ar gyfer hyfforddiant myfyrwyr.	Diwygio proses ethol	Haf 2017
9. Papur trafod y myfyrwyr (Eitem 7)	9.1. Cyflwynwyd papur trafod y myfyrwyr ar gyfathrebu gyda myfyrwyr a darpar-fyfyrwyr gan Alun Rennolf. 9.2. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ymchwilio i'r system ymaelodi a darparu adborth ar unrhyw ddatblygiadau i'r cyfarfod nesaf. 9.3. Atgoffwyd y myfyrwyr y byddai disgwyl iddynt benderfynu ar bwnc a chyflwyno papur trafod i'r cyfarfod nesaf ar 8 Chwefror 2017.	Adborth ar y system ymaelodi NB i atgoffa'r myfyrwyr	Erbyn 8 Chwefror 2017 Erbyn Ionawr 2017
10. Pwyllgor Cydweithio Academaidd (Eitem 8)	10.1. Nodwyd cofnodion drafft y Pwyllgor Cydweithio Academaidd, 21 Medi 2016, er gwybodaeth. 10.2. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar drafodaethau'r pwyllgor yng nghyd-destun cydweithio sydd wedi'u hymgorffori yn y cynllun academaidd.		
11. Strategaeth Ymchwil a Chyhoeddi (Eitem 9)	11.1 Nodwyd cofnodion drafft y Grŵp Ymchwil a Chyhoeddi, 7 Mehefin 2016, er gwybodaeth. 11.2 Bydd y Grŵp yn trafod argymhellion Adolygiad Diamond yn ei gyfarfod nesaf ac adroddir nôl i'r Bwrdd Academaidd fis Chwefror 2017.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
12. Ehangu Mynediad a Chyfranogiad	12.1. Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ar faterion Ehangu Mynediad a Chyfranogiad. Adroddwyd bod Gweithgor Ehangu Mynediad wedi'i sefydlu ac wedi cyfarfod ar 23 Medi 2016. 12.2. Adroddwyd bod ehangu mynediad a chyfranogiad yn ymddangos yn y cynllun academaidd newydd.		
13. Cynllunio Academaidd (iii)	13.1. Adroddwyd ar ganlyniadau ymarferiad cynllunio academaidd fesul pwnc. 13.2. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid, er eglurder, ail ystyried geiriad rhai cymalau yn y Cynllun Academaidd. 13.3. Pwysleisiwyd mai fframwaith ar gyfer penderfyniadau cynllunio fyddai'r ddogfen. 13.4. Cytunwyd y gallai'r aelodau gynnig sylwadau pellach ar y cynllun newydd tan 31 Hydref 2016. Cyflwynir y cynllun i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w gymeradwyo ar 23 Tachwedd 2016. 13.5. Diolchwyd i'r Cofrestrydd am ei waith wrth baratoi'r cynllun academaidd newydd.	Ail ystyried geiriad rhai cymalau Sylwadau'r aelodau	Hydref 2016 31 Hydref 2016
14. Materion yn codi	14.1 <u>Eitem 1.4:</u> Nodwyd bod yr Athro Emeritws Deri Tomos yn parhau'n aelod o'r Bwrdd Academaidd hyd ddiwedd ei dymor aelodaeth.		
15. UFA	15.1. Cyfeiriwyd at y cyfresu teledu *Doctoriaid Yfory* a *Her yr Hinsawdd* a ddarlledir ar S4C sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r Coleg ac astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.		
16. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf	16.1. Nodwyd y dyddiadau canlynol: • 8 Chwefror 2017, Caerfyrddin • 10 Mai 2017, Prifysgol Aberystwyth		